# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Aled Morris Jones**
**Parti: Annibynwyr Môn** **Ward: Twrcelyn**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 8 |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Cadeirydd) | 11 | 10 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall drefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.<br><br>*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 allan o'r 6 Chyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth a heb fynychu'r cyfarfod a drefnwyd.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd | 4 | 3 |
| Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa | 3 | 3 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Rhosybol ers 1986. Mae etholwyr yn cysylltu gyda mi wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost ar amrediad eang o faterion. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd misol o Gyngor Cymuned Rhosybol (fel aelod ohono) ynghyd â Chyngor Cymuned Llanbadrig, Cyngor Cymuned Llaneilian a Chyngor Tref Amlwch. Rwy'n llywodraethwr hefyd yn ysgolion cynradd Rhosybol a Phenysarn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi cefnogi ac wedi gweithio ar nifer o fentrau, i ddarparu croesfan i gerddwyr ger Ysgol Gynradd Rhosybol a phwyso ar gyfer gwella'r ffordd rhwng Cemaes ac Amlwch.

Achub y Llyfrgell yng Nghemaes. Cefnogi prosiect i oleuo Ffagl ar Fynydd Parys ar 11 Tachwedd 2018 i gofio Diwrnod y Cadoediad.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiwn Briffio - Cynllun Corfforaethol a'r Cod | 18/05/2017 |
| Rhoddion, Lletygarwch a Datganiadau o Ddiddordeb | 02/06/201 |
| Hyfforddiant iPad | 31/05/2017 |
| Cwestiynu'n effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 16/01/2018 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 16/01/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 4 allan o 12 ) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i gymryd diddordeb brwd yn natblygiad prosiect Wylfa Newydd a'r effaith uniongyrchol a gaiff ar ward Twrcelyn a'i thrigolion.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=18&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** | **Ebrill 2018** |